

# Y GWASANAETH ADDYSG: CYFARFOD FFORWM CYLLIDEB YSGOLION CAERDYDD



**Amser:** 8.30am – 10.30am  
**Dyddiad:** 12 Mai 2021  
**Lleoliad:** Gwahoddiad Microsoft Teams

## DRAFT AGENDA

Cyf	Eitem	Categori	Yn Arwain
1	Ymddiheuriadau a chroeso i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion (FfCY)	Eitem sefydlog	Cadeirydd
2	Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 17 Mawrth 2021 a materion yn codi:	Eitem sefydlog (papurau wedi'u hatodi)	Cadeirydd
3	Gweithgorau – Cyllidebau Dirprwyedig <ul style="list-style-type: none"><li>• Cylch Gorchwyl</li><li>• Cynradd</li><li>• Uwchradd</li><li>• Ysgolion Arbennig</li></ul>	Gwybodaeth a Thrafodaeth	Rob Green, Neil Hardee,
4	Balansau Ysgolion	Gwybodaeth a Thrafodaeth	Rob Green, Neil Hardee,
5	Dileu Swyddi, TGAC, CGG, Adnewyddu Asedau	Gwybodaeth a Thrafodaeth	Rob Green
6	Unrhyw Fater Arall	Eitem sefydlog	Cadeirydd

Dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol -

7 Gorffennaf 2021

# Y GYFARWYDDIAETH ADDYSG

## COFNODION CYFARFOD FFORWM CYLLIDEB YSGOLION CAERDYDD



**Amser:** 8.30am – 10.30am  
**Dyddiad:** 12 Mai 2021  
**Lleoliad:** Microsoft Teams  
**Yn bresennol:** Karen Dell'Armi - Cadeirydd (KD), y Cynghorydd Sarah Merry, y Cynghorydd Chris Weaver, Mel Godfrey (MG), y Cynghorydd Joel Williams (JW), Mike Tate (MT), Rob Green (RG), Neil Hardee (NH), Angela Jardine (AJ), Andrew Skinner (AS), Nic Naish (NN), John Hayes (JH), Marc Belli (MB), Ivor Gittins (IG), Suzanne Williams (SW), Jane Setchfield (JS), Mari Phillips (MP), Adrian Dinsmore (AD), David Harris (DH), Jane Marchesi (JM), Kevin Hart (KH), Abigail Beacon (AB), Sarah Parry (SP), Catherine Power (CP), Wayne Murphy (WM), Louise Bloom – Clec (LB)

**Ymddiheuriadau:** Ian Allwood (IA), David Silver (DS), Ann Griffin (AG), Sara Allen (SA)

Cyf	Casgliadau/Camau Gweithredu	Pwy
1	<b>Ymddiheuriadau a chroeso</b>	
1.1	Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau a derbyniodd ymddiheuriadau.	
2	<b>Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi</b>	
2.2	Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2021 fel cofnod cywir.	
2.3	<p>Materion yn codi</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i swyddogion am ddsbarthu papurau ychwanegol yn dilyn y cyfarfod. Nododd MB fod Llywodraeth Cymru yn darparu arian ychwanegol i ysgolion i gefnogi gweinyddu arholiadau, byddai cyllid hyd at £10,000 yn cael ei ddarparu i ysgolion mwy. Bydd yn derbyn diweddariad pellach yn ddiweddarach heddiw. Datgelodd arolwg a ryddhawyd yn ddiweddar fod dros 75% o ysgolion uwchradd yn credu na ddylai ffioedd arholiadau fod yn fwy na 25%, roedd 77% gynt yn credu y byddai'n debyg i'r llynedd. Bydd MB yn anfon rhagor o wybodaeth at LB.</p> <p>Adroddodd NH fod penderfyniad ar ariannu arholiadau yn yr arfaeth. Roedd papur canllaw byr, gan Lywodraeth Cymru, yn cynnwys manylion am gyllid pontio ar gyfer dysgwyr Ôl-16. O hyn, dyrannwyd £600,000 i Gaerdydd. Bydd MT yn rhannu gwybodaeth yng nghynhadledd y penaethiaid uwchradd yn ystod yr wythnos. Roedd Llywodraeth Cymru wedi dweud y byddai £8 miliwn arall yn cael ei ddyrannu ar gyfer adfer a dilyniant dysgwyr Ôl-16, cynhelir trafodaethau pellach gyda phenaethiaid uwchradd dros y pythefnos nesaf. Bydd LIC yn cysylltu â chynrychiolydd cyllid, pennaeth chweched dosbarth a'r Consortiwm i ystyried sut y byddai cyllid yn cael ei ddsbarthu i'r ALI. Bydd diweddariad yn cael ei rannu unwaith y bydd yn hysbys.</p>	MB

	<p>Gwahoddodd MT gynrychiolydd eilaidd i gysylltu â chyllid pontio, a chynrychioli'r awdurdod. Bydd dogfen ar ddisgwyliadau cyllid pontio yn cael ei rhannu yng nghynhadledd y penaethiaid uwchradd, ac mae disgwyliadau gwahanol o flynyddoedd blaenorol. Byddai gweithgareddau'n cael eu gweinyddu a'u cofnodi am weddill y flwyddyn academiaidd, drwy'r haf i fis Medi a mis Tachwedd.</p>	
3	<b>Gweithgorau – Cyllidebau Dirprwyedig</b>	
3.1	<p>Cylch Gorchwyl</p> <p>Dosbarthwyd drafft terfynol o'r Cylch Gorchwyl (CG) i'r fforwm. Bydd grwpiau gorchwyl ar gyfer pob cam (cynradd, uwchradd ac arbennig) yn cael eu ffurfio, gan gyfarfod ar ddechrau tymor yr hydref.</p> <p>Mae'r gweithgorau'n cael eu creu i ddatrys unrhyw bryderon y gallai ysgolion eu dal ar gadernid eu dyraniadau cyllideb dangosol a'u cynlluniau ariannol tymor canolig. Nodwyd nad yw nifer o dybiaethau allweddol yn seiliedig ar arbedion effeithlonrwydd a niferoedd disgyblion, sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor, o reidrwydd yn cael eu hadlewyrchu yng nghynlluniau cyllideb ysgolion unigol. Yn ogystal â hyn, mae balansau ysgolion ar draws y sector yn anghyson ac nid oedd y defnydd o falansau ysgolion dros ben ar ddiwedd y flwyddyn i gydbwyso cynlluniau gwariant yn gynaliadwy.</p> <p>Amlinellodd NH y tasgau ar gyfer y gweithgorau. Bydd Mel Godfrey yn arwain ar y gweithgor cynradd, Mike Tate ar y gweithgor uwchradd a Richard Portas ar y gweithgor ysgolion arbennig.</p> <p>Bydd papur yn cael ei gyflwyno i'r FfCY i'w drafod ymhellach erbyn mis Hydref 2021.</p> <p>Yn ogystal â'r penaethiaid gwirfoddol a restrwyd, gwirfoddolodd KD, JH, MB a SP ar gyfer y gweithgor uwchradd. Gwirfoddolodd JS, SW ac AJ ar gyfer pob un o'r grwpiau (i fynychu ar sail rota). Gwirfoddolodd NN ac AD ar gyfer y gweithgor cynradd. Bydd yr Aelodau'n dod o hyd i ragor o gynrychiolwyr Cynradd ac Uwchradd.</p> <p>Cytunodd y fforwm yn fras i'r CG ac i ddyraniadau'r gyllideb/cynlluniau tymor canolig gael eu dadansoddi yn y tri cham, gan fod gan bob un eu deinameg eu hunain. Argymhellodd AJ y dylid cynnwys y Blynyddoedd Cynnar yn y grwpiau gan eu bod hwythau'n profi her.</p> <p>Argymhellir un cynrychiolydd o bob un o'r ysgolion arbennig ar gyfer gweithgor ysgolion arbennig. Bydd NH yn e-bostio'r ysgolion yn dilyn y cyfarfod. Unwaith y bydd gweithgorau wedi'u cwblhau, bydd NH yn anfon e-bost at ddyddiadau a awgrymir (gan ddechrau'n fuan ar ôl hanner tymor).</p>	NH
4	<b>Balansau Ysgolion</b>	
4.1	<p>Amlinellodd RG sefyllfa balansau ysgolion, gan dynnu sylw at darfu a achoswyd gan COVID 19, a adlewyrchir yn nyblu'r ffigur net balansau diwedd blwyddyn, gydag ysgolion heb fawr o gyfle i wario grantiau Llywodraeth Cymru o £9.796m. Felly, byddai balansau addasedig yr ysgolion (ar ôl didynnu dyraniad hwyr grantiau Llywodraeth Cymru) yn cael eu</p>	

	<p>hystyried. Yn flaenorol, lle roedd ysgolion wedi cadw balansau'n gyson o ran mynediad i'r trothwyon y cytunwyd arnynt yn lleol, cyhoeddwyd llythrau i nodi cynlluniau ar gyfer y balans. Ar ôl tair blynedd, byddai cyfarwyddyd ar wario yn cael ei roi a ddilynir gan gyfarfodydd gyda swyddogion cyllid ac adfachu lle y bo'n briodol. O ystyried yr amgylchiadau eithriadol, mae swyddogion ac aelodau yn ystyried camau priodol i gymryd, os o gwbl, i fynd i'r afael â'r balansau dros ben ym flwyddyn ariannol 2021/22. Mae ysgolion hefyd wedi hawlio swm sylweddol o gronfa galedi Llywodraeth Cymru.</p> <p>Yn ddiweddar, roedd y cyfarwyddwr wedi anfon llythyr at ysgolion yn cynghori y byddai sefyllfa balansau ysgolion yn cael ei hadolygu. Bydd llythyr arall yn cael ei anfon at ysgolion ar y camau nesaf, gellir oedi'r gwaith o reoli balansau dros ben am flwyddyn nes bod ysgolion yn fwy sefydlog ac wedi adfer o'r newidiadau a osodwyd gan Covid 19. Gellir ymestyn adfachu a gadwyd ar gyfer ysgolion am gyfnod byr cyn mis Medi 2021 er mwyn caniatáu mwy o le i'r ysgolion sefydlogi eu cynlluniau gwariant a'u cyllideb, gan ystyried yr amgylchiadau y maent yn eu hwynebu.</p> <p>Nododd AD bwysau ar ysgolion cynradd yn sgil y gostyngiad mewn lleoedd meithrin yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf a gofynnodd iddynt gael eu hystyried yn y cynllun tair blynedd. Cadarnhaodd RG y byddai'r materion yn cael eu harchwilio ymhellach yng nghyfarfodydd y gweithgor.</p> <p>Dywedodd AB fod gwarged ym malans ei hysgol wedi'i wario ac roedd yr ysgol mewn perygl o fynd i ddiffyg. Roedd ysgolion â chyfradd symudedd uchel yn disgwyl disgyblion o dramor nad oeddent wedi'u gwireddu, gan effeithio ar niferoedd disgyblion, cyllideb a lefelau staffio. Cytunodd NH ar gynaliadwyedd ac effaith cyllidebau dirprwyedig ysgolion, gan ystyried maint ysgolion ac effaith ar ysgolion llai, yn cael eu hystyried.</p>	
5	<b>Dileu Swyddi, TGAC, CGG, Adnewyddu Asedau</b>	
5.1	<p><u>Dileu Swyddi</u></p> <p>Adroddodd RG wariant o £186,000 ar ddiswyddiadau ac ymadawiadau yn 2020/21, tanwariant sylweddol o'r gyllideb o £1 miliwn. Yn y gorffennol roedd swyddogion wedi nodi y byddai £500,000 o'r tanwariant yn cael ei ddefnyddio i wrthbwysu pwysau yng nghyllideb y gyfarwyddiaeth Addysg oherwydd ansicrwydd gyda'r gronfa galedi. Parhaodd y gronfa galedi drwy gydol y flwyddyn ac roedd yn gallu gwrthbwysu colledion incwm ar gyfer addysg felly; mae wedi'i gadw o fewn cyllideb yr ysgol. Defnyddiwyd rhywfaint o'r tanwariant i wrthbwysu pwysau eraill ddaeth i'r amlwg yng nghyllideb yr ysgol, ond bydd swm sylweddol yn cael ei gario ymlaen mewn cronfeydd wrth gefn.</p>	
5.2	<p><u>TGAC</u></p> <p>Nododd RG fod £12,076,000 wedi'i ddirprwyo i ysgolion ar gyfer TGAC. Erbyn diwedd y flwyddyn, cododd cyfanswm gwerth TGAC i £14,440,000, gan adlewyrchu'r taliadau o fewn y flwyddyn rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021 sef £2,364,000.</p> <p>Neilltuir cyllideb gyfun o £1,400,000 i dalu costau TGAC yn ystod 2020/21. Ar ddiwedd y flwyddyn cafwyd gorwariant ar y gyllideb o £964,000 a chafodd</p>	

	<p>ei adennill gan Ysgolion Cynradd ac Uwchradd gan ddefnyddio'r fformiwla ADY wedi'i bwysoli i nifer y disgyblion ar gyfer pob ysgol fel sail ddyrannu. Mae TGAC yn parhau i gynyddu o ran galw.</p>	
5.3	<p><b><u>CGG</u></b></p> <p>Dywedodd RG fod atebolrwydd hanesyddol wedi'i ad-dalu gyda gwarged o £614,000 bellach yng nghronfa CGG.</p> <p>Roedd cronfeydd caledi Llywodraeth Cymru wedi ad-dalu rhai costau asiantaeth/cyflenwi mewn perthynas ag absenoldeb yn gysylltiedig â COVID, ac arweiniodd hyn, ynghyd â llai o angen cyffredinol i hawlio o'r gronfa, a chau ysgolion yn ystod dau gyfnod clo cenedlaethol at well sefyllfa ym malans y gronfa.</p> <p>Fodd bynnag, nododd chwarter olaf 2020/21 ar ddiwedd y flwyddyn y byddai £532,000 o gostau yn cael eu had-dalu cyn addasiadau swyddogion (yn amodol ar newid).</p> <p>Bydd y gwarged rhagamcanol presennol o £614,000 yn cael ei gario ymlaen a'i ddefnyddio i ddarparu ar gyfer addasiadau terfynol 2020/21. Roedd y taliadau a gyfrifwyd ar gyfer 2021/22 yn seiliedig ar sefyllfa gytbwys ar ddiwedd y flwyddyn gan arwain at gynydd mewn cyfraddau cyfraniadau.</p> <p>Atgoffwyd ysgolion o'r angen i sicrhau enillion prydlon i gefnogi adroddiadau cywir drwy gydol 2021/22.</p>	
5.4	<p><b><u>Adnewyddu Asedau</u></b></p> <p>Nododd RG fod gan y Cynllun Adnewyddu Asedau Cyfalaf, sy'n cynnwys gwaith ADY, gwaith addasrwydd a chyllideb ar gyfer Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd, orwariant net o £245,000. Mae'r gorwariant yn cynnwys derbyn £5.421m gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Grant Cynhaliath Ysgolion, ynghyd â £169,095 o gyllid ICF a £155,000 o gyfraniadau corfforaethol gan Gyngor Caerdydd. Gyda llithriant, mae hyn yn gadael £10,346,000 yn 2021/22, cynnydd sylweddol ar flynyddoedd blaenorol. Gwariwyd £13.88 miliwn yn 2020/21.</p> <p>Mae cyfradd y gwaith a gwblhawyd wedi cynyddu'n fawr, wedi'i alluogi'n rhannol drwy gau ysgolion. Cynhaliwyd 91 o gynlluniau yn 2021 ar gyfer gwaith diogelwch a diogelu.</p>	
6	<p><b>Unrhyw Fater Arall</b></p>	
6.1	<p>Diolchodd y Cadeirydd i RG ar ran y fforwm am ei waith gyda'r fforwm a dymunodd yr aelodau'n dda iddo yn ei rôl newydd.</p>	
6.2	<p><b><u>Prydlesu</u></b></p> <p>Nododd RG reoliadau newid cyfrif mewn trefniadau prydlesu ar draws yr awdurdod. Cynhelir ymarfer casglu data i sefydlu trefniadau prydlesu gyda gwasanaethau canolog ac ysgolion, a byddai'n ofynnol at ddibenion y Datganiad Cyfrifon blyneddol. Rhoddir templed a chanllawiau i ysgolion i restru a choladu'r trefniadau prydlesu sydd ganddynt ar waith ac i gadarnhau</p>	

	Ile nad oes yr un ohonynt yn cael eu cadw. Bydd y dasg yn cael ei chyflawni'n flynyddol.	
6.3	<p><u>Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig</u></p> <p>Dywedodd NH fod Caerdydd, ddeng mlynedd yn ôl, wedi derbyn £4 miliwn o grant MEAG Cymru gyfan o £8/9 miliwn. Wrth i'r boblogaeth gynyddu mewn awdurdodau eraill, galwyd am ailddosbarthu cyllid. Mae setliad grant ariannu'r ALI ar gyfer eleni wedi gweld cynnydd o £10 miliwn i £11 miliwn, gan leihau effaith ailddosbarthu i Gaerdydd a'r dyraniad sy'n weddill ar lefel debyg.</p> <p>Gan fod Caerdydd wedi gweld disgyblion GCLIE yn cael eu gwasgaru mewn ysgolion ledled y ddinas, byddai'r cyllid yn cael ei ailddosbarthu i ysgolion unigol. Dirprwywyd cyfrifoldebau'n flaenorol am arian grant a staff a gyflogwyd drwy'r grant i bum ysgol beilot (Uwchradd - Fitzalan, Cathays, Cynradd - Albany, Kitchener a Mount Stuart). Gweithiodd y peilot yn dda a chafodd ei raeadru. Bedair blynedd yn flaenorol, dirprwywyd cyfrifoldebau am staffio a ariannwyd gan y grant i bob ysgol. Mae swyddogion cymorth wedi gweithio gyda'r ysgolion peilot dros y chwe mis diwethaf i ystyried goblygiadau newid i ddsbarthiad grantiau ar draws y ddinas.</p> <p>Dyrannwyd cyfran o'r cyllid i dîm canolog a oedd yn cwmpasu ystod o brosiectau cysylltiedig ac yn cefnogi newydd-ddyfodiaid i ysgolion. Bydd y cyllid ar gyfer y tîm hwn yn cael ei adolygu.</p> <p>Ym mlwyddyn ariannol 2021/22 byddai'r dull dosbarthu yn cael ei newid, gan edrych ar ddyraniad pwyntiau a'u pwysoli gan brydau ysgol am ddim i adlewyrchu ble mae plant. Byddai dyraniadau'n cael eu newid a'u cyflwyno'n raddol dros bedair blynedd i leihau'r effaith, gan ddechrau ym mis Medi 2021. Nid oedd ysgolion arbennig wedi'u cynnwys yn y newidiadau a byddent yn cael eu trafod ar wahân.</p> <p>Holodd y Cadeirydd a oedd set sgiliau'r tîm canolog yn wahanol i ysgolion unigol yn asesu eu hanghenion a'u gwariant eu hunain, yn enwedig gyda newidiadau yn ystod y flwyddyn a disgyblion ADY. Cadarnhaodd NH fod y tîm yn rhoi cyngor, arweiniad a chymorth i ysgolion; fodd bynnag, mae symudedd disgyblion neu anghenion disgyblion sy'n dod i mewn yn newid deinameg yr ystafell ddsbarth yn effeithio'n anghymesur ar rai ysgolion. Byddai'r materion hyn yn cael eu trafod ymhellach mewn cyfarfodydd grŵp gorchwyl.</p> <p>Anogodd AJ y Cyngor i edrych ar hyfforddiant i ysgolion unigol er mwyn ehangu profiad ac arbenigedd y tîm canolog. Argymhellodd ffrwd gyllideb benodol i sicrhau bod y gweithlu'n cael ei baratoi.</p>	
6.4	Nododd NN nad oedd ysgolion wedi cael eu hatgoffa o'r cynnydd yn y gost i brydau ysgol a gafodd ei oedi y llynedd, gan arwain at broblemau gyda thaliadau rhieni. Gofynnodd i ysgolion gael eu hatgoffa o gynnydd yn y dyfodol a hysbysu FfCY, er mwyn galluogi ysgolion i anfon llythyrau at rieni yn eu hysbysu o'r newidiadau. Nododd NH y cais, cytunwyd ar y newidiadau yn 2020/21 ond fe'u gohiriwyd oherwydd Covid 19.	

6.5	Gofynnodd KH a oedd ymateb wedi'i roi i lythyr FfCY ar ddyraniad y Grant Amddifadedd Disgyblion. Nododd RG fod GAD gan Lywodraeth Cymru yn cael ei dalu drwy'r Consortiwm, bydd yn dilyn yr ymholiad gyda chydweithwyr yn y Consortiwm. Ychwanegodd NH fod cadarnhad terfynol o ddyraniad y Grant Amddifadedd Disgyblion yn yr arfaeth.	RG
7	<b>Dyddiad y cyfarfod nesaf</b>	
7.1	7 Gorffennaf 2021	